Statws *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 No. 2912

Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir Newydd (Cymru) 2005

RHAN 6

Rhedeg Ysgolion Newydd yn Gyffredinol

Cyflawni dogfennau gan y corff llywodraethu dros dro

32.—(1) Dim ond cadeirydd y corff llywodraethu dros dro neu, os nad yw hynny'n rhesymol ymarferol, yr is-gadeirydd, a gaiff wneud a chyflwyno offerynnau ar ran y corff llywodraethu dros dro.

(2) Rhaid i bob dogfen sy'n honni ei bod yn ddogfen wedi'i gwneud neu wedi'i chyflwyno gan neu ar ran y corff llywodraethu dros dro ac sydd i gael ei llofnodi neu ei chyflawni gan gadeirydd neu is-gadeirydd y corff llywodraethu dros dro gael ei derbyn yn dystiolaeth a'i thrin, heb ragor o brawf, fel pe bai wedi'i gwneud felly neu wedi'i chyflwyno felly oni ddangosir i'r gwrthwyneb.